




GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



Rhaglen Mesur Plant 2020-2021

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan**

Y Tîm Cynhyrchu

Dr Llion Davies, Ymgynghorydd Iechyd y
Cyhoedd

Helen Crowther, Rheolwr Rhaglen

Rhian Hughes, Prif Ddadansoddwr Gwybodaeth
Iechyd y Cyhoedd

Andrew Dring, Uwch Ddadansoddwr
Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd

Kelly Canones, Dadansoddwr Gwybodaeth
Iechyd y Cyhoedd

Sophia Bird, Prif Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd,
Atal Gordewdra a Maeth

Iain Bell, Cyfarwyddwr Data, Gwybodaeth ac
Ymchwil Iechyd y Cyhoedd

Katie Allen, Swyddog Cyfathrebu

Louise Richards, Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Dylunio: Ridler Webster Ltd

Cyfieithiad gan Bartneriaeth Cydwasanaethau
GIG Cymru.

Manylion Cyhoeddi

Teitl: Rhaglen Mesur Plant 2020-2021: Byrddau
Iechyd Prifysgol Abertawe ac Aneurin Bevan

Cyhoeddwr: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd

Cyhoeddus Cymru

Dyddiad: 18 Mai 2022

ISBN: 978-1-83766-013-1

Gwefan: [https://icc.gig.cymru/
gwasanaethau-a-thimau/rhaglen-mesur-
plant-cymru2/](https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/rhaglen-mesur-plant-cymru2/)

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
childmeasurementprogramme@wales.nhs.uk

Cydnabyddiaethau

Diolch yn fawr i'r teuluoedd a'r plant a gymerodd
ran yn y rhaglen ac i'r holl staff ym mhob Bwrdd
Iechyd sydd wedi cefnogi'r rhaglen ledled Cymru
a/neu wedi cefnogi gwaith clinigol hanfodol arall
i helpu plant yn ystod cyfnod y pandemig.

© 2022 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gellir atgynhyrchu deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth
Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr
amod y caiff ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hawlfraint y trefniant
teipograffyddol, y dyluniad a'r cynllun yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.



Cynnwys

Y Prif Bwyntiau	4
Cyflwyniad	6
Dulliau	8
Canlyniadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe	10
Canlyniadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	14

Siartiau a Thablau

Ffigur 1 - Canran y plant rhwng 4 a 5 oed gyda ordew, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ac awdurdodau lleol, Rhaglen Mesur Plant, 2020-21

Ffigur 2 - Canran y plant rhwng 4 a 5 oed gyda ordew, pumedau amddifadedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Rhaglen Mesur Plant, 2020-21

Ffigur 3 - Canran y plant rhwng 4 a 5 oed gyda ordew, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac awdurdodau lleol, Rhaglen Mesur Plant, 2020-21

Ffigur 4 - Canran y plant rhwng 4 a 5 oed gyda ordew, pumedau amddifadedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Rhaglen Mesur Plant, 2020-21

Y Prif Bwyntiau



- Amharwyd ar y broses o gasglu data yn 2020/21 ar draws sawl rhan o Gymru oherwydd cau ysgolion a blaenoriaethu adnoddau mewn ymateb i bandemig COVID-19. Felly, dim ond ar gyfer dau Fwrdd Iechyd y gallwn adrodd data - Bae Abertawe ac Aneurin Bevan - lle mae gennym ddigon o ddata ar gyfer canlyniadau dibynadwy. Mae hyn hefyd yn golygu na allwn ddarparu ffigur cyffredinol i Gymru.
- Yn y ddau Fwrdd Iechyd rydym yn gweld cynnydd sylweddol yng nghanran y plant 4/5 oed gyda ordew a gostyngiad sylweddol yn y gyfran a oedd yn bwysau iach o'i gymharu â 2018/19.
- Nid yw'n bosibl allosod y canfyddiadau i Gymru gyfan gan fod nodweddion poblogaeth y Byrddau Iechyd Lleol yn amrywio.



Cyflwyniad



Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau allweddol Rhaglen Mesur Plant (RhMP) Cymru ar gyfer y flwyddyn ysgol 2020-2021. Oherwydd effeithiau pandemig COVID-19 ar gasglu data, ni allwn adrodd ar lefel Cymru gyfan. Mae'r adroddiad hwn wedi'i gyfyngu i ranbarthau Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB).

O ystyried y cwmpas daearyddol cyfyngedig dylid cymryd gofal wrth ddehongli'r canlyniadau os allosodir y canlyniadau y tu hwnt i BIPBA a BIPAB. Hynny yw, ni ddylid tybio bod canlyniadau'r ardaloedd hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa ledled Cymru.


Yn ogystal â'r crynodeb hwn, mae'r canlyniadau llawn, gan gynnwys tablau data, ar gael ar wefan y Rhaglen Mesur Plant yn:

Rhaglen Mesur Plant Cymru



Dulliau





Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â mesuriadau a gymerwyd o blant sy'n byw yn rhanbarthau BIPBA neu BIPAB sy'n mynychu'r dosbarth derbyn ac a drodd yn 5 oed yn ystod blwyddyn academaidd 2020-21. Mae gwybodaeth fanwl sy'n esbonio sut y cymerwyd mesuriadau a sut y cafodd data eu casglu a'u dadansoddi ar gael ar y wefan. Gweler y ddogfen y gellir ei lawrlwytho "**Rhaglen Mesur Plant Cymru: hanes, fframwaith deddfwriaethol ac agweddau technegol**".

Adroddir ar y canlyniadau ar wahân fesul Bwrdd Iechyd mewn dwy adran isod. Caiff y canlyniadau eu rhoi mewn cyfran (%) o'r garfan ac yna'r Cyfwng Hyder cyfatebol o 95% (95% CI) mewn cromfachau. Y garfan yw cyfanswm nifer y plant a gafodd eu mesur sy'n byw yn rhanbarth y Bwrdd Iechyd.

Gwneir cymariaethau, lle bo hynny'n berthnasol, â data 2018/19 ar gyfer yr un Byrddau Iechyd. Dewiswyd adroddiad 2018/19 fel y cymharydd gan mai hwn oedd yr adroddiad diweddaraf a chasglwyd y data cyn y pandemig. Diffiniwyd gwahaniaethau sy'n arwyddocaol yn ystadegol pan nad oedd Cyfyngau Hyder 95% o'r canlyniadau cyfran cymaredig yn gorgyffwrdd. Mae rhywedd yn cyfeirio at newidyn deuaidd sydd wedi'i gategoreiddio fel 'bechgyn' neu 'ferched'.

O ystyried cwmpas daearyddol cyfyngedig yr adroddiad hwn, mae nifer o elfennau nad ydynt

wedi'u cynnwys o gymharu ag adroddiadau blaenorol ar lefel Cymru gyfan:

- Gan nad oedd digon o ddata ar gyfer adroddiad ystadegau swyddogol 2019-2020, mae bwlch data yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Nid yw dadansoddiadau sy'n seiliedig ar bum mlynedd o adrodd, megis tyrchu ymhellach i lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Ganol, ar gael. Mae hyn yn cynnwys y mapiau gwres. Mae hyn hefyd yn golygu nad yw data tueddiadau dros amser yn cael eu hadrodd.
- Ni adroddir am ddadansoddiadau sy'n dibynnu ar gwmpasu cenedlaethol ar gyfer niferoedd digonol, gan gynnwys dadansoddiad ethnigrwydd a chymariaethau yn y DU.
- Nid yw delweddau y mae angen eu cymharu â chyfartaledd Cenedlaethol (Cymru) ar gael.
- Nid yw'r dangosfwrdd rhyngweithiol wedi'i ddiweddarau.

Rhaid rhoi mwy o ystyriaeth hefyd i gyfyngiadau'r data wrth ddehongli. Er enghraifft, fel arfer caiff dadansoddiad o amddifadedd ei adrodd ar lefel Genedlaethol. Rydym wedi darparu dadansoddiad ar lefel Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, mae'r niferoedd ar gyfer rhai categorïau cwintellau yn llai na 100 o blant. Nodir cyfyngiadau ar gyfer yr adroddiad hwn hefyd yn y datganiad ansawdd data sy'n ymddangos ar y wefan ochr yn ochr â'r adroddiad.

Canlyniadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe





Y gyfran gyfranogi gyffredinol oedd 86.7% ar draws BIPBA. Ar gyfer rhanbarthau Awdurdod Lleol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, y cyfrannau cyfranogi oedd 86.9% a 86.3% yn y drefn honno.

Dan bwysau a Phwysau iach

Roedd nifer y plant a gafodd eu categorïddio fel rhai dan bwysau yn fach ac yn cynrychioli 0.5% (95% CI rhwng 0.3 a 0.8) o'r garfan. Roedd y canlyniad hwn yn debyg i ddata 2018/19.

Cyfran y plant a gafodd eu categorïddio fel pwysau iach oedd 65.5% (95% CI rhwng 63.9 a 67). Roedd hwn yn ostyngiad arwyddocaol yn ystadegol o'i gymharu â data 2018/19 a nododd gyfran o 72.2% (95% CI rhwng 70.8 a 73.6).

Dros bwysau nid yn ordew


Cyfran y plant a gafodd eu categorïddio fel rhai sydd dros bwysau, nid gyda ordew, oedd 16.4% (95% CI rhwng 15.2 a 17.7). Roedd hyn ychydig yn uwch na'r gyfran a adroddwyd yn 2018/19 o 14.2% (95% CI rhwng 13.1 a 15.3). Fodd bynnag, rhaid dehongli'r gwahaniaeth hwn yn ofalus oherwydd efallai na fydd yn arwyddocaol yn ystadegol gan fod y cyfyngau hyder 95% yn gorgyffwrdd.

Gordew

Cyfran y plant a gafodd eu categorïddio gyda ordew oedd 17.6% (95% CI rhwng 16.4 a 18.9). Mae hyn yn sylweddol uwch na'r gyfran a adroddwyd yn 2018/19 sef 13.0% (95% CI rhwng 12.0 a 14.1). Mae'r dadansoddiad o ordewdra yn ôl rhanbarth Awdurdod Lleol a chanlyniad cyffredinol BIPBA a gynrychiolir gan y llinell goch yn Ffigur 1. Mae hyn yn dangos bod cyfran uwch gyda ordew yng Nghastell-nedd Port Talbot o'i gymharu ag Abertawe. Roedd y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol. Roedd y cyfrannau a oedd gyda ordew yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot yn sylweddol uwch na'r cyfrannau priodol yn 2018/19.

Ffigur 1 - Canran y plant rhwng 4 a 5 oed gyda ordew, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ac awdurdodau lleol, Rhaglen Mesur Plant, 2020-21

Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data Rhaglen Rheoli Mesur Plant (RhMP) Iechyd a Gofal Digidol Cymru




Rhywedd ac Amddifadedd

Roedd y cyfrannau ar draws pob categori mesur yn debyg ar gyfer bechgyn a merched.

Rhoddir dadansoddiad cyfran gordewdra yn ôl cwintelau amddifadedd ar lefel BILI yn Ffigur 2. Roedd y gyfran a gafodd ei chategoreiddio fel un sy'n profi gordewdra yn amrywio o 20.7% (95% CI rhwng 18.4 a 23.2) ar gyfer y rhai yn y pumed â'r amddifadedd mwyaf i 12.8% (95% CI rhwng 10.6 a 15.3) ar gyfer y rhai yn y pumed â'r amddifadedd lleiaf. Roedd y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol.

Ffigur 2 - Canran y plant rhwng 4 a 5 oed gyda ordew, pumedau amddifadedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Rhaglen Mesur Plant, 2020-21

Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data Rhaglen Rheoli Mesur Plant (RhMP) Iechyd a Gofal Digidol Cymru



Canlyniadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan





Y gyfran gyfranogi gyffredinol oedd 90.5% ar draws BIPAB. Y dadansoddiad cyfran gyfranogi yn ôl rhanbarthau Awdurdodau Lleol oedd: Caerffili 89.5%, Blaenau Gwent 91.2%; Torfaen 91.4%; Sir Fynwy 90.5%; Casnewydd 90.7%.

Dan bwysau a Phwysau iach

Roedd nifer y plant a gafodd eu categorio fel rhai dan bwysau yn fach ac yn cynrychioli 0.8% (95% CI rhwng 0.6 a 1.0) o'r garfan. Roedd y gyfran hon yn debyg i ddata 2018/19.

Cyfran y plant a gafodd eu categorio fel pwysau iach oedd 66.7% (95% CI rhwng 65.5 a 67.9). Roedd y canlyniad hwn yn sylweddol is na chyfran 2018/19 o 73.9% (95% CI rhwng 72.8 a 74.9).

Dros bwysau nid yn ordew

Cyfran y plant a gafodd eu categorio fel rhai sydd dros bwysau ac nid gyda ordew oedd 14.2% (95% CI rhwng 13.3 a 15.1), ac roedd yn debyg i adroddiad 2018/19 o 13.7% (95% CI rhwng 12.9 a 14.5).

Gordew

Cyfran y plant a gafodd eu categorio gyda ordew oedd 18.3% (95% CI rhwng 17.4 a 19.3). Mae hyn yn sylweddol uwch na'r gyfran o 11.8% (95% CI rhwng 11.0 i 12.6) a adroddwyd yn 2018/19. Mae'r dadansoddiad o ordewdra yn ôl rhanbarth Awdurdod Lleol a chanlyniad cyffredinol BIPBA a gynrychiolir gan y llinell goch yn Ffigur 3. Mae hyn yn dangos bod y gyfran gyda ordew yn amrywio ar draws Awdurdodau Lleol. Gwelwyd y cyfrannau isaf yng Nghasnewydd a Sir Fynwy. Roedd y rhain yn arwyddocaol is yn ystadegol na'r cyfrannau uchaf a adroddwyd ym Mlaenau Gwent a Chaerffili. Roedd y cyfrannau a oedd gyda ordew ym mhob un o'r pum rhanbarth Awdurdod Lleol yn sylweddol uwch o gymharu â'r cyfrannau a adroddwyd yn 2018/19.

Ffigur 3 - Canran y plant rhwng 4 a 5 oed gyda ordew, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac awdurdodau lleol, Rhaglen Mesur Plant, 2020-21

Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data Rhaglen Rheoli Mesur Plant (RhMP) Iechyd a Gofal Digidol Cymru

—| Cyfyngau Hyder 95%

Aneurin Bevan UHB = 18.3




Rhywedd ac Amddifadedd

Roedd y cyfrannau ar draws pob categori mesur yn debyg ar gyfer bechgyn a merched.

Rhoddir dadansoddiad cyfran gordewdra yn ôl cwintelau amddifadedd ar lefel BILL yn Ffigur 4. Mae'r gyfran sy'n cael ei chategoreiddio gyda ordew yn amrywio o 21.1% (95% CI rhwng 19.3 a 23.0) ar gyfer y rhai yn y pumed â'r amddifadedd mwyaf i 13.2% (95% CI rhwng 11.1 a 15.6) ar gyfer y rhai yn y pumed â'r amddifadedd lleiaf. Roedd y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol.

Ffigur 4 - Canran y plant rhwng 4 a 5 oed gyda ordew, pumedau amddifadedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Rhaglen Mesur Plant, 2020-21

Cynhyrchwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio data Rhaglen Rheoli Mesur Plant (RhMP) Iechyd a Gofal Digidol Cymru



Rhagor o wybodaeth



Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb byr o'r dadansoddiad o'r mesuriadau plant a gymerwyd ar gyfer y Rhaglen Mesur Plant. Gellir dod o hyd i wybodaeth fwy cynhwysfawr a ddangosir fel tablau ar ein gwefan yn **Rhaglen Mesur Plant GIG Cymru**.

I gael rhagor o wybodaeth am fynd i'r afael â gordewdra ymysg plant ewch i wefan Gwella Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru yn:

<https://everychildwales.co.uk/?lang=cy> a dilynwch y ddolen i'r wybodaeth **"10 cam i bwysau iach"**.

